

Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022
- Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022
- Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
26 Mai 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol:

- 1.1. Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (“Rheoliadau Canlyniadol 2022”) yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol i roi effaith llawn i ddarpariaethau o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) a gweithredu’r Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022.

Rheoliadau Pontio:

- 1.2. Mae Rheoliadau Pontio o’r Ysgol Gynradd i’r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022 (“Rheoliadau Pontio 2022”) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynlluniau pontio. Mae’r ddarpariaeth yn cynnwys yr hyn sydd i ymdrin ag ef yn y cynlluniau, yr amserlen ar gyfer eu llunio ac yn nodi i bwy y mae’r cynlluniau yn gymwys yn ogystal â manylion ar gyfer adolygu a chyhoeddi ar gyfer cynllun pontio.
- 1.3. Mae’r Rheoliadau yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Trosglwyddo o’r Ysgol Gynradd i’r Ysgol Uwchradd) (Cymru) 2006 (“Rheoliadau Trosglwyddo 2006”).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae’r Rheoliadau sy’n cael eu rhestru yn y memorandwm esboniadol wedi cael eu gosod fel un pecyn i gefnogi’r gwaith o weithredu’r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022.
- 2.2 Lle bo hynny’n berthnasol, bydd y diwygiadau a wneir gan Rheoliadau Canlyniadol 2022 yn cael eu gweithredu gam wrth gam yn unol â’r amserlen isod:

<i>Wedi’i gyflwyno’n raddol o:</i>	<i>Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy’n dilyn CiG</i>	<i>Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy’n y Cwricwlwm Cenedlaethol (a Lleol).</i>
Medi 2022	Meithrin, derbyn, blwyddyn 1 i flwyddyn 6 a blwyddyn 7 ar gyfer ysgolion / lleoliadau sydd wedi dewis gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru newydd o 2022.	Blwyddyn 7 mewn ysgolion/lleoliadau sydd wedi dewis peidio â gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru newydd o 2022; a blynyddoedd 8 i 11.

Medi 2023	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 8 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blynyddoedd 9 i 11
Medi 2024	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 9 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blynyddoedd 10 i 11
Medi 2025	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 10 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blwyddyn 11
Medi 2026	Dysgwyr blynyddoedd meithrin, derbyn, ac oedran gorfodol (blynyddoedd 1 i 11). Mewn perthynas â Rhan 5 o Ddeddf 2021 - y dysgwyr hynny mewn ysgolion a gynhelir mewn addysg ôl-16 (blynyddoedd 12 a 13).	Dim – ni fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol mwyach.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Deddf 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021, yn gosod fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwricwlwm a fframwaith asesu newydd sy'n cael ei arwain gan ddibenion ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed sy'n derbyn addysg mewn:
- ysgolion a gynhelir
 - lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
 - unedau cyfeirio disgyblion; a
 - lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a drefnir gan awdurdodau lleol.
- 3.2 Mae hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir (Rhan 5 o'r Deddf 2021).

Rheoliadau Canlyniadol 2022

- 3.3 Mae adran 74 o Ddeddf 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2021, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2021. Gall hyn fod yn ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, neu ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.
- 3.4 Caiff y rheoliadau a wneir o dan adran 74 o Ddeddf 2021 ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys y Ddeddf ei hun). Gwneir Rheoliadau Canlyniadol 2022 o dan y pŵer hwnnw.

Rheoliadau Pontio 2022

- 3.5 Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru gael cynllun pontio gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo (adran 198(1)). Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru

wneud rheoliadau mewn perthynas â'r cynlluniau pontio hynny (adran 198(5)). Diben y cynlluniau pontio yw hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd.

- 3.6 Felly, mae'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo gael cynllun pontio wedi'i amlinellu yn y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio a Chanllawiau 2022 ("Gofyniad a Chanllawiau Pontio 2022"). Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar sut y gall ysgolion gydymffurfio â'r gofyniad. Rhaid i'r cynllun pontio gael ei wneud yn unol â Rheoliadau Pontio 2022, ac odanynt. Gwneir Gofyniad a Chanllawiau Pontio 2022 o dan adran 198(2) o Ddeddf Addysg 2002.
- 3.7 Mae Gofyniad a Chanllawiau Pontio 2022 yn is-ddeddfwriaeth nad yw'n offeryn statudol. Mae'r gofyniad presennol i gael cynlluniau pontio wedi'i gynnwys yn y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio a Chanllawiau 2006. Caiff hynny ei ddirymu a'i ddisodli gan Ofyniad a Chanllawiau Pontio 2022. Mae'r is-ddeddfwriaeth honno hefyd yn cynnwys canllawiau at ddibenion penderfynu a yw ysgol benodol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol.
- 3.8 Y rheoliadau presennol yw Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 ("Rheoliadau Trosglwyddo 2006"). Dirymir Rheoliadau Trosglwyddo 2006 gan Rheoliadau Pontio 2022.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Sefydlodd Deddf 2021 fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu fel rhan o raglen ehangach o ddiwygio addysg yng Nghymru. Diben y Rheoliadau a nodir yn y memorandwm esboniadol hwn yw gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer:
 - trosglwyddo disgyblion o flwyddyn 6 i flwyddyn 7,
 - gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Rheoliadau Canlyniadol 2022

- 4.2 Mae'r diwygiadau a geir yn y rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i Ddeddf 2021 ac er mwyn rhoi effaith lawn iddi.
- 4.3 Mae rheoliad 1 o Rheoliadau Canlyniadol 2022 yn darparu ar gyfer cychwyn y Rheoliadau hyn fesul grŵp blwyddyn. Bydd hyn yn adlewyrchu'r bwriad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a fydd hefyd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o amser fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2022.
- 4.4 Mae Rheoliad 3 yn darparu ar gyfer Atodlen 1, sy'n cynnwys mân gywiriadau i adrannau 13 i 16 o Ddeddf 2021.

4.5 Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer Atodlen 2, sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol arall. Er enghraifft, mae diwygiadau yn Atodlen 2 i Reoliadau Canlyniadol 2022 yn diwygio terminoleg mewn deddfiadau fel bod eu darpariaethau'n cyd-fynd â Deddf 2021, gan gynnwys dileu cyfeiriadau at "Cwricwlwm Cenedlaethol" a'r "cyfnodau allweddol" ac (ar wahân) mewnosod cyfeiriadau at "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" a "pedwar diben cwricwlwm".

Rheoliadau Pontio 2022

4.6 Yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022, roedd angen adolygu ac newid Rheoliadau Trosglwyddo 2006 er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru.

4.7 Mae gan bob ysgol gynlluniau pontio ar waith ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar bontio a pharhad y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu yn seiliedig ar y cwricwlwm presennol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol hefyd yn cynnwys iaith nad yw bellach yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac y mae'n rhaid symud oddi wrtho, er mwyn dangos y newid sylweddol yn y dull gweithredu sy'n ofynnol gan gwricwlwm y Cwricwlwm i Gymru a arweinir gan ddibenion.

4.8 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pontio effeithiol yn parhau i fod yn bwysig o dan y Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau parhad dysgu a chynnydd parhaus a phriodol a gefnogir i ddysgwyr rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

4.9 Mae Rheoliadau Pontio 2022 (rheoliadau 2 a 4) yn gosod dyletswyddau ar gyrfff llywodraethu ysgolion a gynhelir i lunio cynlluniau pontio newydd rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo er mwyn sicrhau bod y broses o drosglwyddo dysgwyr o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 yn seiliedig ar gwricwlwm newydd ysgolion, a weithredir o fis Medi 2022.

4.10 Er mwyn sicrhau parhad dysgu yn cael ei ystyried wrth gynllunio'r cwricwlwm a bod addysgu a dysgu wedi'u cynllunio a'u cyflwyno'n briodol i gefnogi cynnydd, rhaid dechrau gweithredu cynlluniau pontio o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Gan gofio hyn, a chan ystyried y gwaith sydd ei angen rhwng ysgolion i lunio cynlluniau pontio, daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Gorffennaf 2022.

4.11 Gan na fydd y broses bontio ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6 presennol (blwyddyn academaidd 2021/22) yn digwydd tan fis Medi 2022, a chan y bydd y dysgwyr hyn yn trosglwyddo o dan y cwricwlwm presennol, bydd Rheoliadau Trosglwyddo 2006 yn cael eu dirymu ar 1 Medi 2022.

4.12 Hon fydd y garfan olaf o ddysgwyr sy'n trosglwyddo o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 o dan y cwricwlwm presennol ac o dan y trefniadau presennol.

- 4.13 Mae Rheoliadau Pontio 2022 yn adlewyrchu gofynion Rheoliadau Trosglwyddo 2006 mewn perthynas â phwy y mae gofynion yn gymwys iddynt; i ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd a gynhelir sy'n eu bwydo. Cedwir y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo, fel y'i diffinnir felly yn Ngofyniad a Chanllawiau Pontio 2022 (sydd i'w cyhoeddi ar 1 Gorffennaf).
- 4.14 Er bod Gofyniad a Chanllawiau Pontio 2022 yn rhoi mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gorfod llunio cynlluniau pontio, cydnabyddir y gallai anghydfodau godi o hyd ynghylch a ystyrir bod ysgol gynradd yn ysgol gynradd sy'n bwydo i ysgol uwchradd ai peidio. Felly, mae rheoliad 5 o Reoliadau Pontio 2022 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benderfynu ynghylch unrhyw anghydfodau o'r fath.
- 4.15 Mae rheoliad 6 o Reoliadau Pontio 2022 yn darparu ar gyfer ffurf a chynnwys Cynlluniau Pontio. Mae'r rheoliad hwn yn debyg i ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliadau Trosglwyddo 2006 ond mae'r materion sydd i'w trafod, fel y nodir yn yr Atodlen, wedi'u diwygio i ystyried ethos y Cwricwlwm i Gymru.
- 4.16 Mae'r materion sydd i'w trafod yn y cynllun pontio, fel y nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Pontio 2022, yn cynnwys cynigion yn gyffredinol ar gyfer rheoli a chydlynu'r broses o drosglwyddo disgyblion; cynigion yn gyffredinol ar gyfer sut y cyflawnir parhad dysgu drwy gynllunio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 6 sy'n symud i flwyddyn 7; a chynigion ar gyfer sut y caiff cynnydd pob disgybl unigol ei gefnogi wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- 4.17 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod pwysigrwydd lles y dysgwyr i alluogi dysgu llwyddiannus. Mae sicrhau bod lles dysgwyr a'u hanghenion unigol yn rhan annatod o'r broses bontio yn y dyfodol. Mae'r Atodlen hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys cynigion ar gyfer sut y caiff anghenion dysgu a lles pob disgybl unigol eu cefnogi wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- 4.18 Mae'n bwysig, unwaith y cytunir ar gynlluniau a'u bod yn cael eu gweithredu, eu bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod y cynlluniau ond yn bodoli rhwng y partïon hynny yn y mae'n ofynnol iddo eu cynnwys h.y. bod cynlluniau ond yn cynnwys ysgolion cyfredol o fewn y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo, ond byddant hefyd yn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir sef cefnogi dilyniant dysgwyr a chynnal parhad dysgu. Mae rheoliad 8 a 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu a diben adolygu cynlluniau pontio ac mae paragraff 5 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu a monitro effaith y cynllun pontio.
- 4.19 Mae darpariaeth mewn perthynas â chyhoeddi cynlluniau pontio (rheoliad 7) neu ddatganiad yn dilyn adolygiad (rheoliad 10) yn ogystal â darpariaeth mewn perthynas â chyhoeddi a darparu copïau o Gynlluniau Pontio (rheoliad 11) yn Rheoliadau Pontio 2022 wedi aros yr un fath â'r rhai yn Rheoliadau Trosglwyddo 2006.

5. Ymgynghori

Rheoliadau Canlyniadol 2022

- 5.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â Rheoliadau Canlyniadol 2022 gan eu bod ond yn gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol sy'n ofynnol i roi effaith lawn i'r Ddeddf. Fodd bynnag, cynhaliodd swyddogion drafodaethau gyda phartneriaid allweddol i nodi bwriadau polisi sy'n ymwneud â diwygiadau canlyniadol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Rheoliadau Pontio 2022

- 5.2. Datblygwyd y cynigion deddfwriaethol ar y cyd ag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Asesu, sy'n grŵp arbenigol gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, academyddion a chynrychiolwyr o'r haen ganol gan gynnwys Consortia a Phartneriaethau Rhanbarthol ac Estyn. Roedd cyd-adeiladu'r polisi yn caniatáu i ni ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y grŵp i ystyried a myfyrio ar effaith weithredol a goblygiadau cysylltiedig y cynigion polisi.
- 5.3. Mae'r Grŵp Cynghori ar Asesu wedi bod yn elfen allweddol yn natblygiad y polisi asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru, gan gyd-lunio'r Canllawiau Cefnogi Cynnydd Dysgwyr yn ogystal â'r polisi manylach ar gyfer Rheoliadau Pontio 2022.
- 5.4. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 8 wythnos rhwng 6 Medi a 31 Hydref 2021 ar y cynigion ar gyfer trefniadau asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.
- 5.5. Roedd y strategaeth ymgysylltu i gefnogi'r ymgynghoriad yn cynnwys gwaith gyda Wavehill i ddarparu grwpiau ffocws penodol. Amcan cyffredinol y grwpiau ffocws oedd casglu ystod o wybodaeth ychwanegol i gefnogi ein dealltwriaeth o farn rhai grwpiau tuag at y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau manylach ar gynigion yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â chwestiynau penodol yn ymwneud â grwpiau rhanddeiliaid unigol a amlinellwyd yn y gofynion. Casglodd y grwpiau ffocws farn plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a chynrychiolwyr o leoliadau EOTAS gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- 5.6. Cafwyd 78 o ymatebion. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn gyflwyniadau manwl. Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar-lein yn: [Trefniadau asesu: is-ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021.](#)

- 5.7. Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn ymwneud yn bennaf ag adborth ehangach, a oedd yn ymestyn y tu hwnt i gynnwys Rheoliadau Pontio 2022. Fodd bynnag, fe wnaeth yr adborth a gafwyd helpu i ddiwygio'r gwaith o ddrafftio Rheoliadau Pontio 2022, er enghraifft fe wnaeth adborth yn codi pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth am "iechyd meddwl" dysgwr yn ystod y cyfnod pontio neu wrth ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr arwain at ddileu cyfeiriadau at iechyd meddwl gan ganolbwyntio ar les y dysgwr yn unig.
- 5.8. Roedd yr adborth yn dangos awydd am ddeunyddiau enghreifftiol a deunyddiau ategol ar draws y ddau faes deddfwriaethol ac mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu deunyddiau ategol ychwanegol a gyhoeddir yn ddiweddarach yn nhymer ym haf 2022.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol gan eu bod yn gwneud diwygiadau statudol yn unig ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol: Trosolwg

- 6.1 Mae'r gofyniad am gynlluniau pontio rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i gefnogi'r broses o drosglwyddo dysgwyr o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 yn brosesau allweddol sydd eisoes yn bodoli o fewn y system ysgolion ac yn cyd-fynd â dyletswyddau a gofynion eraill a osodir ar ysgolion. Mae'n parhau i fod yn broses bwysig o dan fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
- 6.2 Fel y dywedir yn adran [Cynllunio eich Cwricwlwm](#) o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, mae datblygu cwricwlwm a threfniadau asesiadau yn broses gyfannol anghenrheidiol. Mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth o ystyriaethau, yn ogystal â dyletswyddau a gofynion gorfodol eraill o dan Ddeddf 2021, canllawiau cwricwlwm ehangach ac amgylchiadau lleol. Mae Rheoliadau Pontio 2022 yn ystyried lefel y sybsidiaredd a ddarperir i ysgolion drwy fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu a phenaethiaid o ran sut y dylid gweithredu darpariaethau i adlewyrchu a chefnogi'r sybsidiaredd hwnnw. O ganlyniad, ni ystyrir bod dadansoddiadau a chostau ar wahân yn ymwneud ag effeithiau dosrannu elfennau penodol o Fframwaith deddfwriaethol Cwricwlwm i Gymru (y mae'r rheoliadau hyn yn rhan ohonynt) yn ddichonadwy; neu, os ceisir gwneud hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau amheus o ystyried yr ystod eang o newidynnau a chafeatau cysylltiedig. Yn fyr, byddai'n afrealistig ceisio deall a dadansoddi, asesu ac adrodd ar effeithiau'r gofynion penodol a nodir yn y broses ehangach o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.
- 6.3 Mae gwybodaeth fanwl wedi'i chasglu am y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o asesu'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Nodir hyn yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021 a basiwyd yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021 ac a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Yn ystod hyn

Deddf 2021 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf 2021 a diwygio'r cwricwlwm. Darparwyd yr wybodaeth hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Ionawr 2022 fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb.

Asesiadau Effaith

6.4 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â Cwricwlwm i Gymru yn parhau. O ganlyniad, mae amrywiaeth o asesiadau effaith wedi'u cyhoeddi eisoes ac, mewn rhai achosion, wedi'u diweddarau'n ddiweddar sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Addysg \(Trefniadau ar gyfer asesu yn y Cwricwlwm i Gymru\) 2022](#)
- [Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Cod Cynnydd a'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.
- Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.3, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwmo i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ymhellach erbyn diwedd 2021.
- Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig](#) o sut y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu.
- [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
- [Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
- [Aesesiad Effaith Integredig ar gynigion deddfwriaethol i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.
- Y ffurflen [Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#) a gyhoeddwyd ym Mis Ebrill 2018.

7. Opsiynau

Gofynion i wneud Cynlluniau Pontio i gefnogi pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

7.1 Ystyriwyd dwy opsiwn yn yr asesiad hwn.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim – Cadw'r ddeddfwriaeth bresennol

7.2 Ystyriwyd a ellid cadw'r ddeddfwriaeth bresennol (Rheoliadau Trosglwyddo 2006) i barhau i lywodraethu'r broses bwysig o ddatblygu cynlluniau pontio i

gefnogi'r broses o drosglwyddo dysgwyr o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae deddfwriaeth 2006 yn ymgorffori'r cwricwlwm presennol, gan ganolbwyntio ar fonitro ac olrhain dysgwyr yn erbyn lefelau a chyfnodau allweddol. Nid yw hyn yn cyd-fynd â't Cwricwlwm i Gymru ac felly nid oedd yr opsiwn hwn yn ymarferol.

- 7.3 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gwricwlwm sy'n cael ei arwain gan ddibenion ar draws continwrm 3-16 lle mae'r dysgwr unigol a'i gynnydd unigol wrth wraidd y datblygiad a'r ddarpariaeth. Sybsidiaredd yw un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru ac o dan Ddeddf 2021, gydag ysgolion yn cynllunio eu trefniadau Cwricwlwm ac Asesu eu hunain o fewn y fframwaith deddfwriaethol a ragnodir yn genedlaethol.
- 7.4 Wrth roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith o fis Medi 2022, mae angen i'r broses o drosglwyddo dysgwyr o flwyddyn 6 i flwyddyn 7, a'r cynlluniau sydd ar waith sy'n sail i'r broses drosglwyddo, gyd-fynd â'r addysgu a dysgu o fewn y Cwricwlwm newydd. Bydd angen i'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ystyried y trefniadau pontio o fewn yr amgylchedd newydd hwn, gan ystyried y cwricwlwm unigol sy'n cael ei weithredu o fewn yr ysgolion.
- 7.5 Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pontio newydd gael eu llunio, gan ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru.
- 7.6 Nid yw Rheoliadau Trosglwyddo 2006 yn cyd-fynd â Cwricwlwm i Gymru. Ni fyddai adolygu a gweithredu cynlluniau newydd o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn cefnogi'r broses drosglwyddo yn y Cwricwlwm i Gymru.

Opsiwn 2 – Dirymu a Disodli Rheoliadau Trosglwyddo 2006

- 7.7 Mae Rheoliadau Pontio 2022 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Trosglwyddo 2006.
- 7.8 Mae Rheoliadau Pontio 2022 i raddau helaeth yn efelychu'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Trosglwyddo 2006. Fodd bynnag, wrth ystyried yr opsiynau o ran y materion y dylid ymdrin â hwy mewn cynlluniau pontio, cydnabuwyd bod angen mwy o ffocws ar y dysgwr unigol a chynnydd, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.
- 7.9 Er mwyn i drefniadau pontio gefnogi pob dysgwr i symud ymlaen, gan ddarparu parhad dysgu ar y pwynt allweddol hwn yn y continwrm dysgu, mae'r materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn cynlluniau pontio bellach yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol a sut y dylid cefnogi hynny yn ystod y cyfnod pontio; sut y cyflawnir parhad dysgu drwy gynllunio'r cwricwlwm a chynllunio'r addysgu a'r dysgu ar gyfer disgyblion blwyddyn 6; a sut y bydd anghenion a lles dysgwyr unigol yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod pontio.

Costau a manteision

- 7.10 Nid oes unrhyw gostau sylweddol ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd 2022. Mae eisoes yn ofynnol i ysgolion perthnasol roi cynlluniau pontio ar waith ac adolygu a diweddarau'r rhain yn rheolaidd. Mae'r adolygiad ar gylch tair blynedd ar hyn o bryd neu gellir ei sbarduno gan ysgol gynradd yn dod yn ysgol gynradd newydd sy'n bwydo i ysgol uwchradd, neu lle mae cyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw o'r farn y gallai fod angen cynnal adolygiad.
- 7.11 Bydd Rheoliadau Pontio 2022 a Gofyniad a Chanllawiau Pontio 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo roi cynlluniau pontio newydd ar waith ar gyfer trosglwyddo disgyblion blwyddyn 6 i flwyddyn 7 o dan y Cwricwlwm i Gymru. Er y gallai'r gofyniad hwn, ar gyfer rhai ysgolion, fod y tu allan i'r cylch adolygu hwyaf y gellir gofyn amdano (tair blynedd) a gall ddwyn amseriad adolygiad yn ei flaen, mae'r costau hyn ar gyfer cynllunio proses bontio yn gost gyfredol o fewn y system ysgolion.
- 7.12 Heb Reoliadau Pontio 2022, sy'n dirymu a disodli Rheoliadau Trosglwyddo 2006, ni fyddai'r broses gynllunio ar gyfer trosglwyddo dysgwyr o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a'u cefnogi yn canolbwyntio ar barhad dysgu o fewn y Cwricwlwm i Gymru, ni fyddai'n ystyried anghenion dysgwyr unigol a sut y dylid eu cefnogi a gallai fethu â chefnogi dysgwyr yn ddigonol i symud ymlaen.